# Taliadau Niwed drwy Frechiad

Medi 2010

DWP Adran Gwaith a Phensiynau

Gwasanaeth Anabledd a Gofalwyr



## Gwybodaeth bwysig am y daflen hon

Canllaw yn unig yw'r daflen hon ac nid yw'n cwmpasu pob amgylchiad. Rydym wedi gwneud ein gorau i sicrhau bod y daflen yn gywir o fis Medi 2010. Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o'r wybodaeth wedi'i gorsymleiddio neu'n dod yn llai cywir dros amser, er enghraifft oherwydd newidiadau i'r gyfraith.

Cynnwys

Beth yw Taliad Niwed drwy Frechiad? . . . . . . . . . . . . 4
Pa frechiadau a gwmpesir? . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 5
Pwy all gael Taliad Niwed drwy Frechiad? . . . . . . . . . . 7
Beth yw ystyr 'anabledd difrifol'? . . . . . . . . . . . . . . . . . 8
Pryd y gallaf wneud cais? . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 8
A allaf wneud cais am Daliad Niwed drwy Frechiad ar ran rhywun arall?. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 9
Faint yw Taliad Niwed drwy Frechiad? . . . . . . . . . . . . 10
I bwy y telir Taliad Niwed drwy Frechiad? . . . . . . . . . 10
Sut y gallaf wneud cais am Daliad Niwed drwy Frechiad neu gael rhagor o wybodaeth? . . . . . . . . . . 11
Fformatau eraill o'r daflen hon . . . . . . . . . . . . . . . . . . 14

# Beth yw Taliad Niwed drwy Frechiad?

Os oes gennych anabledd difrifol o ganlyniad i frechiad, efallai y gallwch gael Taliad Niwed drwy Frechiad.

Taliad untro, di-dreth yw hwn i'ch helpu i dalu costau ychwanegol y gallwch eu hwynebu.

Ni chaiff pob brechiad ei gwmpasu.

Nid oes ots os oes gennych gynilion neu arian arall yn dod i mewn, gallwch gael Taliad Niwed drwy Frechiad o hyd.

# Pa frechiadau a gwmpesir?

Efallai y gallwch gael Taliad Niwed drwy Frechiad os oes gennych anabledd difrifol o ganlyniad i gael brechiad ar gyfer un o'r clefydau canlynol:

- Difftheria
- Tetanws
- Y pâs (pertwsis)
- Polio
- Y frech goch
- Clwy'r pennau
- Brech goch yr Almaen (rwbela)
- TB (twbercwlosis)
- Y frech wen (hyd at 1 Awst 1971)
- HIB (Haemophilus Influenzae math B)
- Llid yr ymennydd C
- Haint niwmococol
- Feirws papiloma dynol (HPV)
- Ffliw pandemig A (H1N1) 2009 (ffliw moch) (hyd at 31 Awst 2010).

Gall brechiadau cymysg gyfrif hefyd, megis:

- DTP - difftheria, tetanws a phertwsis, neu
- MMR - y frech goch, clwy'r pennau a rwbela.

Gallwch hefyd gael Taliad Niwed drwy Frechiad os oes gennych anabledd difrifol a achoswyd gan un o'r canlynol:

- eich mam yn cael unrhyw un o'r brechiadau hyn pan oedd yn feichiog gyda chi, neu
- bod yn gorfforol agos at rywun y rhoddwyd brechiad polio iddo drwy'r geg.

Os ydych yn ansicr, gofynnwch.

# Pwy all gael Taliad Niwed drwy Frechiad?

Os oes gennych anabledd difrifol o ganlyniad i gael un neu ragor o'r brechiadau a restrir ar dudalen 5 pan oeddech o dan 18 oed, gallwch wneud cais.

Gallwch hefyd wneud cais os oes gennych anabledd difrifol o ganlyniad i gael brechiad ar gyfer polio, rwbela, llid yr ymennydd C neu bapiloma dynol neu ffliw pandemig A (H1N1) 2009 (ffliw moch) pan oeddech dros 18 oed.

Os ydych chi neu'ch teulu yn y Lluoedd Arfog, gallwch wneud cais os oes gennych anabledd difrifol o ganlyniad i unrhyw un o'r brechiadau hyn a roddwyd i chi fel rhan o driniaeth feddygol gan y Lluoedd Arfog tra roeddech dramor.

Os yw'r unigolyn a gafodd y brechiad wedi marw, gallwch wneud cais ar ei ran o hyd. Gweler tudalen 9.

Mae'n rhaid eich bod wedi cael y brechiad yn y Deyrnas Unedig, neu Ynys Manaw, neu fel rhan o driniaeth feddygol gan y Lluoedd Arfog tra roeddech dramor.

Hyd yn oed os ydych wedi symud dramor, efallai y gallwch gael Taliad Niwed drwy Frechiad o hyd.

Os ydych yn ansicr, gofynnwch.

# Beth yw ystyr 'anabledd difrifol'?

Rydym yn ystyried anabledd yn ôl canran. Gallai hwn fod yn anabledd corfforol neu feddyliol.

Er enghraifft, os ydych wedi colli eich golwg neu eich clyw yn llwyr, byddem yn ystyried eich bod 100 y cant yn anabl. Mae 'anabledd difrifol' yn golygu bod rhywun 60 y cant neu fwy yn anabl.

# Pryd y gallaf wneud cais?

Dylech wneud cais cyn gynted â phosibl.

Mae'n rhaid i chi wneud hyn:

- cyn eich pen-blwydd yn 21ain oed fan bellaf, neu
- o fewn chwe blynedd i'r dyddiad y cawsoch y brechiad os ydych dros 21 oed.

# A allaf wneud cais am Daliad Niwed drwy Frechiad ar ran rhywun arall?

Gallwch.

Os mai chi yw ei riant, ei warcheidwad neu ei gynrychiolydd, gallwch wneud cais ar ei ran:

- rhwng ei ben-blwydd yn ddwy oed a'i ben-blwydd yn 21ain oed, neu
- os yw'n 21 oed neu'n hŷn, ond cafodd y brechiad yn ystod y chwe blynedd diwethaf.

Os yw'r unigolyn wedi marw, gallwch wneud cais ar ei ran o hyd os oedd dros ddwy oed pan fu farw a chyhyd â'ch bod yn gwneud y cais:

- cyn y dyddiad y byddai wedi cael ei ben-blwydd yn 21ain oed, neu
- o fewn chwe blynedd i'r dyddiad y cafodd y brechiad.

# Faint yw'r Taliad Niwed drwy Frechiad?

Un taliad o £120,000 yw Taliad Niwed drwy Frechiad. Nid oes rhaid i chi dalu treth ar yr arian hwn.

# I bwy y telir Taliad Niwed drwy Frechiad?

Os ydych yn 18 oed neu'n hŷn a gallwch reoli eich arian eich hun, caiff y Taliad Niwed drwy Frechiad ei dalu i chi.

I bobl o dan 18 oed neu na allant reoli eu harian eu hunain, caiff y Taliad Niwed drwy Frechiad ei dalu i ymddiriedolwyr (pobl a ddewisir i weithredu ar eu rhan).

Gall rhieni weithredu fel ymddiriedolwyr.

Os yw'r unigolyn anabl wedi marw, bydd yr unigolyn sy'n gweithredu ar ei ran yn cael y taliad.

# Sut y gallaf wneud cais am Daliad Niwed drwy Frechiad neu gael rhagor o wybodaeth?

Er mwyn gwneud cais am Daliad Niwed drwy Frechiad, bydd angen i chi lenwi ffurflen gais.

Mae nifer o ffyrdd y gallwch gysylltu â ni i gael ffurflen gais neu ragor o wybodaeth.

**Dros y ffôn**

Gallwch ffonio'r Uned Taliadau Niwed drwy Frechiad ar:

- **01772 89 99 44** (ffôn), neu
- **0845 60 45 312** (ffôn testun).

Mae’r llinellau ar agor rhwng 8.30am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Iau, a rhwng 8.30am a 4.30pm ar ddydd Gwener.

## Ffonau testun – os ydych yn cael anhawster gyda'ch lleferydd neu'ch clyw

Mae ein rhifau ffôn testun ar gyfer pobl na allant siarad neu glywed yn glir. Os nad oes gennych ffôn testun, gallech holi a oes gan eich llyfrgell neu ganolfan cyngor ar bopeth leol un. Nid yw ffonau testun yn derbyn negeseuon testun o ffonau symudol.

Gallwch hefyd ffonio gan ddefnyddio gwasanaeth Text Relay.

## Cost galwadau

Roedd y taliadau'n gywir ar y dyddiad ar gefn y daflen hon.

Ni ddylai galwadau i'r Uned Taliadau Niwed drwy Frechiad o linellau dir BT gostio mwy na 6c y funud a 10c am sefydlu'r alwad. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu mwy os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall neu ffôn symudol, neu os byddwch yn ffonio o dramor.

Ni ddylai galwadau i rifau **0845** o linellau tir BT gostio mwy na 6c y funud a 10c am sefydlu'r alwad. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu mwy os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall neu ffôn symudol, neu os byddwch yn ffonio o dramor.

Gall galwadau o ffonau symudol gostio hyd at 40c y funud, felly holwch eich darparwr gwasanaeth am gost galwadau.

Pan fyddwch yn ein ffonio, dim ond rhoi cyngor y gall yr unigolyn sy'n ateb eich galwad ei wneud. Nid yw'r cyngor hwn yr un peth â phenderfyniad am gais.

**Ar-lein**

Ewch i **www.direct.gov.uk/disability-vdp** am gyngor cyffredinol neu i **www.direct.gov.uk/disability-vdpclaim** am ffurflen gais.

Gallwch anfon neges e-bost atom yn **CAU-VDPU@dwp.gsi.gov.uk** os oes gennych unrhyw gwestiynau.

**Yn ysgrifenedig**

Gallwch ysgrifennu at yr Uned Taliadau Niwed drwy Frechiad yn:

Vaccine Damage Payments Unit
Palatine House
Lancaster Road
Preston
PR1 1HB

## Fformatau eraill o'r daflen hon

Mae'r daflen hon ar gael yn Saesneg ac mewn fformatau eraill. Ffoniwch 01772 89 99 44 i gael rhagor o wybodaeth.

Os ydych yn ei chael hi'n anodd clywed neu siarad yn glir, gallwch archebu'r taflenni hyn drwy ddefnyddio'n gwasanaeth ffôn testun ar 0845 60 45 312.

Gallwch ffonio'r rhifau hyn rhwng 8.30am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Iau, a rhwng 8.30am a 4.30pm ar ddydd Gwener.

## Rhagor o wybodaeth ar-lein

Os ydych yn anabl neu'n gofalu am rywun, ewch i Directgov nawr i gael gwybodaeth am gymorth ariannol, hawliau, cyflogaeth, byw'n annibynnol a llawer mwy.

Mae Directgov yn cynnig yr ystod ehangaf o wybodaeth gan y llywodraeth ar-lein i'r cyhoedd.

**www.direct.gov.uk/disability**

**www.direct.gov.uk/carers**

Rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd o wella'r wybodaeth a roddwn, felly byddem yn croesawu unrhyw sylwadau ac awgrymiadau sydd gennych. Anfonwch hwy atom yn:
**leaflet.feedback@dwp.gsi.gov.uk**

Fodd bynnag, ni allwn ateb unrhyw gwestiynau am fudd-daliadau o'r cyfeiriad hwn.

ISBN: 978-1-84947-409-2
(h) Hawlfraint y Goron
Cynhyrchwyd gan y Gwasanaeth Anabledd a Gofalwyr, rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau.
**VACDPA5DCSW** Medi 2010